Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Parc y Tywyn
# Heol Elfed
# Porth Tywyn
# Sir Gaerfyrddin
# SA16 0AL

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Parc y Tywyn yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion rhwng tair a hanner ac 11mlwydd oed. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Porth Tywyn a'r ardal o'i hamgylch. Fe'i lleolir ar gyrion y dref, yng nghanol ystâd o dai cyngor ger yr ysgol uwchradd lleol. Yn ôl yr ysgol mae'n ardal sydd yn datblygu yn economaidd gyda datblygiadau diweddar ym myd twristiaeth a hamdden. Mae naw y cant o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru a chyfartaledd yr awdurdod addysg.

Ar hyn o bryd, mae 247 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 60 o ddisgyblion yn y dosbarthiadau derbyn. Daw 12.5% y disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg; Saesneg yw iaith cartref y gweddill. Caiff y disgyblion eu haddysgu gan 11 athro llawn amser a phum athro rhan amser ynghyd â 16 o gynorthwywyr ar draws yr ysgol. Bydd bron bob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Y Strade ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Derbynia 24% o'r disgyblion gymorth anghenion addysg ychwanegol, canran sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd er Medi 1996. Bu newid sylweddol yn staff yr ysgol eleni pan ddechreuodd pedwar o athrawon newydd.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Parc y Tywyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,321 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £18,947 a'r lleiafswm yw £3,114. Mae Ysgol Parc y Tywyn yn safle 80fed o'r 110 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae elfennau o berfformiad cyfredol yr ysgol yn dda gan fod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais ac mae ganddynt agwedd dda tuag at ddysgu; a
- chaiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol.

Er hynny, digonol yw'r perfformiad cyfredol yn oherwydd bod:

- tueddiadau yng nghanlyniadau asesiadau athrawon dros gyfnod yn is na'r canlyniadau ysgolion tebyg;
- nid oes digon o gynnydd ym medrau ysgrifennu estynedig disgyblion y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2;
- gormod o blant yn tangyflawni yn eu profion darllen; a
- nid yw'r marcio ar adegau yn dangos yn ddigon clir sut i wella ansawdd a chynnwys y gwaith.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw'r ysgol yn mynd i'r afael a dadansoddi data yn ddigon manwl i nodi tangyflawniad mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg;
- nid yw'r prosesau i fonitro'r ddarpariaeth yn ddigon trylwyr i nodi ble mae angen gwelliant; a
- nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn ddigon heriol i osod cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau gwelliant yn y niferoedd disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;

A3 cryfhau systemau hunan arfarnu'r ysgol gyda ffocws clir ar gynnydd a medrau llythrennedd disgyblion; a

A4 gwneud gwell defnydd o ddata sy'n cymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae amrywiaeth yng ngallu'r disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol. Er hynny, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn yr ysgol ac ar y cyfan maent yn cyflawni safonau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Nid oes patrwm cyson o dan berfformio gan fechgyn neu ferched ar draws yr ysgol. Mae disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol neu sydd â'r hawl i ginio am ddim yn gwneud cynnydd priodol.

Ar draws yr ysgol, gall mwyafrif o ddisgyblion alw i gof dysgu blaenorol yn dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Maent yn gwrando'n dda ac yn siarad yn glir, gan gyfleu eu syniadau a'u teimladau yn weddol hyderus. Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a'r cwestiynau a ofynnir gan yr athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n dda iawn ac yn siarad yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn estynedig yn aml. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn darllen yn gywir, yn hyderus ac medru trafod nodweddion amrywiaeth o lyfrau ac awduron yn y ddwy iaith. Er hynny, nid ydynt yn lliwio'u mynegiant yn dda ac mae lleiafrif yn darllen braidd yn herciog. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru ysgrifennu'n syml ac yn weddol gywir mewn ystod o ffurfiau. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu yn greadigol ac yn estynedig wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Mae canlyniadau Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'n sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf, ond maent o hyd yn is na chanlyniadau'r teulu o ysgolion tebyg. Mae canlyniadau Cymraeg cyfnod allweddol 2 yn anghyson, ac yn 2011 roeddent yn is na rhai y teulu ond yn uwch na Chymru. Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o ddaearyddiaeth, diwylliant a hanes Cymru yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion saith oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol yn uwch na ffigyrau Cymru a chyfartaledd y teulu o ysgolion ar brydiau. Er hynny, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau yn ddi-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 50% isaf dros gyfnod mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad ac yn y pynciau hyn yn unigol, heblaw am wyddoniaeth a oedd yn y 25% uchaf yn 2011. Yn gyffredinol mae'r cyflawniadau ar lefel 3 yn y pynciau unigol fel arfer yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion, ond am un o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion 11 oed sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn uwch na ffigurau teulu o ysgolion tebyg a ffigurau Cymru yn 2011. Cyn hynny roedd perfformiad yr ysgol yn uwch na'r teulu'r ym mhedair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Er hynny, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 2

wedi amrywio o fod ymhlith y 25% isaf i'r 50% uchaf o ysgolion tebyg yn genedlaethol.

Nid yw cyflawniadau disgyblion 11 oed ar lefel 5 yn y pynciau unigol wedi cymharu'n ffafriol â'r teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf yn gyffredinol, ond am un neu ddwy o'r pum mlynedd ddiwethaf. Bu gwelliant dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn gwyddoniaeth. Yn 2011, roedd cyflawniadau'r bechgyn mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar lefel 5 yn arwyddocaol uwch na'r merched o gymharu â ffigurau'r teulu a Chymru.

**Lles: Da**

Mae safonau lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a mae digon o gyfleoedd i bawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Maent yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel ynddi.

Mae lefel presenoldeb yr ysgol yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol, ond mae'r ysgol wedi symud i'r 50% isaf o ysgolion tebyg yn 2010. Mae lefel presenoldeb disgyblion y tymor diwethaf yn dangos cynnydd.

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn dangos ymddygiad da iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae'r disgyblion i gyd yn ystyriol ac yn gwrtais gyda'u cyfoedion staff ac ymwelwyr. Mae eu hymddygiad yn gyson dda ac maent yn mwynhau bod yn yr ysgol. Yn y gwersi mae'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith a'r gallu i ganolbwyntio ac maent yn awyddus i ymgymryd â thasgau.

Mae aelodau'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco yn frwdfrydig ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fynegi barn a chyfrannu at ddatblygiad yr ysgol. Mae gweithgarwch y Cyngor Ysgol wedi gwreiddio'n ddwfn i fywyd yr ysgol ac maent yn cyfarfod yn wythnosol. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fynegi barn a chyfrannu at ddatblygiad yr ysgol a gellir gweld ffrwyth eu llafur.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae staff yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion. Cynllunnir gwersi a gweithgareddau o ansawdd da sydd yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn darparu ymweliadau addysgol diddorol sy'n cefnogi'r dysgu. Mae cysylltiadau agos iawn rhwng yr ysgol, ysgolion y clwstwr a diwydiant lleol sy'n datblygu medrau'r staff a'r disgyblion.

Mae ffocws ar ddatblygu medrau'r disgyblion i'w weld yn y rhan fwyaf o gynlluniau wythnosol a hefyd mewn cynlluniau tymor byr. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth, rhifedd a chyfathrebu yn effeithiol, ond nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, yn enwedig ysgrifennu estynedig.

Caiff y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn enwedig yn rhaglen waith cyfnod allweddol 2 gyda llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am agweddau ar ddiwylliant Cymru. Mae arddangosfeydd holl ddosbarthiadau’r ysgol yn hyrwyddo hyn hefyd.

Mae’r profiadau a ddarperir gan yr ysgol i hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn dda, gyda’r prosiect ‘Over the Rainbow’ wedi ei sefydlu’n gadarn i gefnogi hyn. Mae’r ysgol wedi derbyn gwobr ryngwladol y Cyngor Prydeinig ac wedi arwain ar brosiect Comeniws. Mae llais y disgybl yn gryfder gyda gwaith da y Cyngor Ysgol a’r Eco Gyngor yn cael effaith amlwg ar yr ysgol a’r gymuned.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth dda am y meysydd dysgu a’r pynciau y maent yn eu haddysgu. Defnyddiant strategaethau addysgu amrywiol er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i’r disgyblion. Maent yn creu amgylchedd cyfoethog deniadol ac ysgogol yn eu dosbarthiadau. Mae’r cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a’r staff cefnogi yn creu ethos gweithgar a chynhaliol.

Yn y rhan fwyaf o wersi ceir cyflwyniadau bywiog a chyflymder pwrpasol. Mae’r athrawon yn rhannu nodau’r gwersi’n briodol gyda’r disgyblion ac yn trefnu dilyniant o weithgareddau sy’n sicrhau bod y disgyblion yn gweithio’n gynhyrchiol yn barhaus. Maent yn trafod meini prawf llwyddiant gyda’r disgyblion ar ddechrau’r gwersi ac mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o’u targedau personol. Trwy gwestiynu effeithiol mae’r athrawon yn herio’r disgyblion i feddwl. Gwneir defnydd cyson o ganmoliaeth ac anogaeth sy’n gymorth i reoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol.

Yn yr ychydig wersi ble mae’r addysgu’n ddigonol, nid oes digon o weithgareddau gwahaniaethol wedi eu darparu, nid ydynt yn annog y disgyblion i feddwl yn ddigonol nac yn datblygu eu dealltwriaeth a’u medrau yn drylwyr. Yn y gwersi hyn hefyd mae cyflymder y wers yn rhy araf, mae rhai disgyblion yn anesmwytho ac nid yw anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu.

Ar draws yr ysgol nid yw’r gwaith yn herio’r disgyblion o allu uwch yn ddigonol mewn gwersi ac, nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn gyffredinol, nid yw’r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer ysgrifennu yn gosod digon o bwyslais ar ddatblygu medrau ysgrifennu’n estynedig yn effeithiol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd dda yn y rhan fwyaf o’r gwersi. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynnwys disgyblion yn y broses o osod targedau ar gyfer gwella, ond nid yw’r arfer yn gyson ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn marcio’n rheolaidd, ond nid yw’r marcio’n ddigon manwl bob amser i sicrhau bod y disgyblion yn deall sut i wella’u gwaith a’r camau nesaf. Nid yw’r marcio bob amser yn gosod digon o bwyslais ar safon cyflwyniad y gwaith. Mae trefniadau priodol yn eu lle i safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae perthynas waith dda rhwng y staff a’r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau, gan gynnig cyfleoedd rheolaidd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn gwersi.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant drwy'r adroddiadau a chyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae hon yn ysgol hapus ble mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn dda. Caiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo yn effeithiol gan glybiau chwaraeon niferus ac mae cyfleoedd da i ddatblygu menter siopa a mentrau entrepreneuriaid eraill.

Gwneir defnydd addas o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol a cheir cydweithio effeithiol gyda rhai asiantaethau allanol.

Caiff ochr ysbrydol y disgyblion ei ddatblygu'n briodol drwy ymweld ag amrywiaeth o addoldai gwahanol grefyddau yn lleol. Mae datblygiad moesol y disgyblion yn cael eu hybu'n effeithiol trwy werthoedd yr ysgol sydd wedi eu selio ar barchu pawb yn y gymdeithas.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion gwahanol ddisgyblion yn gynnar trwy arsylwi cyson, cyd-drafod fel staff, a thrafod gyda rhieni ac mae'n darparu rhaglenni pwrpasol ar eu cyfer. Caiff cynnydd ei dracio a sgoriau eu cymharu gyda phrofion blaenorol. Mae data ar gael i bob athro ar system gyfrifiadurol yr ysgol sydd yn eu galluogi i olrhain cynnydd disgyblion yn effeithlon. Mae'r cynllun Llythrennedd a Synau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dechrau cael dylanwad positif ar fedrau darllen cynnar y disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gartrefol a chyfeillgar. Mae'n darparu cwricwlwm sy'n hygyrch iawn i bawb ac mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw priodol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr ysgol ac am bwysigrwydd ymddwyn yn dda, parchu a dathlu.

Mae'r ysgol yn darparu digon o adnoddau addas sy'n gweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Gwelir arddangosfeydd lliwgar sy'n hybu a chyfoethogi dysgu'r disgyblion drwy'r ysgol. Ar y cyfan, mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd addas ar gyfer dysgu. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, mae prinder lle ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac mae cyflwr un o ddosbarthiadau symudol yn wael.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus a gweithgar, sy'n hyrwyddo lles disgyblion yn effeithiol.

Mae cyfrifoldebau arwain wedi eu dyrannu'n briodol i'r staff. Mae'r tîm rheoli estynedig yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod agweddau rheolaethol, er nad yw amseriad y cyfarfodydd yn sicrhau amser digonol i'r gwaith. Arweiniodd blaengaredd diweddar at gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag angen cymorth ychwanegol â'u medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid oes digon wedi ei wneud i fynd i'r afael ag agweddau eraill ar danberfformiad ac i sicrhau systemau rheoli ansawdd sy'n gyson a thrylwyr.

Gwna'r tîm rheoli ddefnydd o'r setiau data craidd ar gyfer monitro perfformiad yr ysgol. Ond nid oes defnydd digonol o ddata sy'n cymharu perfformiad yr ysgol ag ysgolion tebyg. Mae defnydd o ddata oed darllen disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i dargedu cymorth ychwanegol, lle bo'r angen. Nid yw'r ysgol yn defnyddio'r data hwn i nodi tueddiadau ar lefel ysgol gyfan.

Mae'r corff llywodraethol yn defnyddio dadansoddiadau data i drafod perfformiad yr ysgol, er nad yw'r corff eto'n rhoi her ddigonol i'r ysgol ar sail data sy'n cymharu perfformiad ag ysgolion tebyg. Mae cyfrifoldebau cyswllt pynciol wedi eu dyrannu i aelodau'r corff llywodraethol ac mae rhai llywodraethwyr wedi ymweld â'r ysgol. Nid yw'r llywodraethwyr yn derbyn digon wybodaeth yn deillio o systemau hunan-arfarnu'r ysgol i'w galluogi i chwarae rhan fwy gweithredol yn llunio'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol yn gysylltiedig â'r fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar y cyd â theulu ysgolion y Strade. Mae'r mentrau diweddar yn dangos ymrwymiad i wella medrau llythrennedd disgyblion ac yn dechrau cael effaith bositif ar safonau.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae trefniadau rheoli ansawdd yr ysgol yn defnyddio ystod o ffynonellau tystiolaeth, sy'n cynnwys arsylwi gwersi ac archwilio samplau o waith ysgrifenedig disgyblion. Mae'r ffurflenni monitro'n cofnodi sylwadau dadansoddol, ond nid oes digon o sylw i'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud mewn gwersi ac yn eu medrau llythrennedd. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o holiaduron i ganfod barn rhieni a disgyblion.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gwneud defnydd o ddadansoddiadau data ac yn cynnig arfarniadau cryno. Mae rhestr fer o feysydd i'w datblygu ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad, ond nid oes digon yn cael ei wneud yng nghorff yr adroddiad i nodi agweddau lle mae angen gwella.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol ar gyfer y tymor byr sydd wedi eu seilio ar yr adroddiad hunan arfarnu. Mae defnydd o dargedau meintiol ac mae dyddiadau cwblhau a chostau wedi eu nodi ynddo. Er hynny, nid oes cyswllt digonol rhwng y cynllun â deilliannau systemau monitro'r ysgol. Nid yw'r cynllun datblygu yn nodi strategaeth fanwl ar gyfer mynd i'r afael ag agweddau ar dangyflawniad, yn enwedig mewn perthynas â safonau ysgrifennu ac oedrannau darllen.

Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar rwydweithiau lleol i ddarparu cyfleoedd i athrawon ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda. Caiff staff hefyd gyfle i weld

blaengareddau newydd ar waith yn yr ysgol yn fewnol. Mae cyswllt cychwynnol wedi ei wneud â phedair o ysgolion eraill sydd wedi eu grwpio yn yr un teulu a Pharc y Tywyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr, gyda bron bob un ohonynt yn gefnogol i waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg lleol a'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill sy'n ei bwydo. Mae'r ysgol wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r cylchoedd meithrin hefyd. Mae'r cysylltiadau agos hyn yn sicrhau gweithdrefnau pontio effeithiol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â'r brifysgol leol hefyd. Eleni mae'r ysgol wedi bod yn cydweithio'n llwyddiannus, gyda chymorth y swyddog addysg, ar y Nod Ansawdd. O ganlyniad, mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau cymorth penodol i grwpiau o ddisgyblion sy'n tanberfformio wedi gwella.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill i ehangu profiadau'r disgyblion. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn archebu ffrwythau a llysiau oddi wrth fferm leol ac yn eu didoli a'u gwerthu i'r rhieni. Mae'r ysgol hefyd yn ysgol arweiniol prosiect sy'n hyrwyddo cysylltiadau Ewropeaidd sef 'Comeniws', a gwelir bod y blaengaredd hwn yn bwydo'n effeithiol i sesiynau dysgu a hefyd yn treiddio'n llwyddiannus drwy'r ysgol gyfan.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi buddsoddi yn hael ar lefelau staffio uchel, ond nid yw'r buddsoddiad hwn eto wedi cael digon o amser i gael ei adlewyrchu yn safonau a gwaith disgyblion.

Mae'r cynorthwyon dysgu yn rhan effeithiol o'r tîm addysgu ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu.

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Gwneir trefniadau priodol ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad, sy'n cynnwys yr athrawon a'r cynorthwyon dysgu.

O ystyried safonau ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, digonol yw'r gwerth am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi bod yn uwch na ffigurau Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn is yn y tair blynedd cyn hynny.  Yn gyffredinol, mae'r patrymau yn debyg yn y pynciau hyn yn unigol.  Roedd y ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 3 mewn Cymraeg yn 2011 yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Yn y Gymraeg bu'r canlyniadau yn gyson is na'r teulu a Chymru o 2007 i 2009.  Er hynny, gwelwyd cynnydd cyson a bellach mae 'r canlyniadau o gwmpas cyfartaledd Cymru ac ychydig yn is na chymedr y teulu.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, roedd perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol di-dâl, ond am wyddoniaeth a oedd yn y 25% uchaf yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd  canran disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn uwch na chymedr y teulu o ysgolion mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf.

Mewn Cymraeg, mae'r canran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch yn gyffredinol wedi bod yn is na chymedr y teulu o ysgolion mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf.  Mae perfformiad mewn ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn is na chymedr y teulu a Chymru mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf ac mae'r tuedd i lawr yn arwyddocaol.  Yn Saesneg, bu canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn uwch na chymedr y teulu a Chymru mewn dwy o'r pum mlynedd ddiwethaf.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol ddi-dâl.  Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio o'r 25% isaf i'r 50% uchaf o'i gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae cyflawniadau ar lefel 5 yng ngwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â'r teulu yn 2011.  Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 5 neu uwch wedi bod yn anwastad ac yn aml yn is na chymedr y teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 1, gwelir patrwm cyson o dangyflawniad bechgyn o gymharu â'r merched.  Mae'r ganran o fechgyn yng nghyfnod allweddol 2, sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch yn anwastad, ond mewn mathemateg a gwyddoniaeth mae'r canrannau wedi bod yn arwyddocaol uwch na'r merched o gymharu â chanrannau a nodwyd yn ysgolion eraill y teulu a Chymru gyfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Daeth 28 o ymatebion i law gan rieni ac roeddynt yn unfrydol bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da.  Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda a bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Credant hefyd fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu yn dda.  Mae pob rhiant a ymatebodd yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.  Maent hefyd o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n effeithiol ac yn annog y plant i weithio'n galed.  Maent yn hapus â'r cynnydd a wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt.  Mae bron bob un yn datgan fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.  Maent hefyd yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion ac yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.  Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 121 o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â'r disgyblion yn ystod yr arolygiad.  Mae'r dysgwyr oll yn datgan eu bod yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Dywedant fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlïo a bod athrawon ac oedolion eraill o fewn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae pob un o'r farn fod yr athrawon yn eu haddysgu'n effeithiol am bwysigrwydd gwybod sut i fod yn iach.  Maent yn gwybod ble i droi am gefnogaeth pan fyddant yn gofidio neu yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob un yn credu eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.  Maent yn dweud bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd ac maent yn credu bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ann Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Michael Hayes | Arolygydd Tîm |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Helen Rowe | Arolygydd Cymheiriaid |
| Donna Jenkins (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.